

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn briodol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn bywydau plant ifanc a'r hyn y maent yn ei ddysgu gan gynnwys ymarferwyr plentyndod cynnar sydd am ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r rolau proffesiynol sy'n gysylltiedig â gyrfa ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar yr hyn y mae gwrando ar blant yn ei olygu natur gyfranogol profiadau plant ifanc.

Byddwch yn dechrau drwy archwilio pam bod llais y plentyn yn bwysig cyn symud ymlaen i ystyried gwahanol ffyrdd o wrando a phwysigrwydd cyfranogiad plant o ran darpariaeth ac ymarfer yn ystod plentyndod cynnar.

Mae E229 yn fodiwl gorffodol 60 credyd ar gyfer y cwrs BA (Anrh) Plentyndod Cynnar.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster gwlad-benodol perthnasol i ymarferwyr mewn maes pwnc priodol, er enghraifft addysg a gofal y blynyddoedd cynnar; astudiaethau plentyndod cynnar; gwaith chwarae; seicoleg ddatblygiadol; datblygiad plentyn neu Statws Athro Cymwysedig neu gymhwyster cyfatebol yn y blynyddoedd cynnar.
- profiad o weithio mewn un cyd-destun plentyndod cynnar neu fwy
- gwybodaeth am theori, addysg ac ymarfer ym maes plentyndod cynnar, a dealltwriaeth ohonynt. Dylai gwybodaeth ddamcaniaethol gynnwys dealltwriaeth o'r safbwynt diwylliannol-gymdeithasol ar blentynod cynnar a dysgu
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dadleuon a'r cymhlethdodau ynghylch chwarae, dysgu a llais plant ifanc.
- profiad o weithio gyda myfyrwyr sy'n oedolion a chefnogi myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd nad ydynt, o bosibl, wedi astudio ar y lefel hon o'r blaen
- profiad o gefnogi sgiliau llythrennedd ac astudio academaidd myfyrwyr
- profiad o asesu a rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol ar aseiniadau a gynhyrchir gan ddysgwyr sy'n oedolion

profiad o gefnogi ac addysgu myfyrwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd ar-lein, gan gynnwys helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer astudio'n effeithiol ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o wneud gwaith ymchwil gyda phlant ifanc gan gynnwys goblygiadau moesegol gweithgaredd o'r fath
- parodrwydd a/neu allu i gynorthwyo myfyrwyr mewn tiwtorialau ar-lein  
profiad o weithio mewn tîm a chydweithio ag eraill er mwyn cynnal sesiynau tiwtora.

*Gwybodaeth Ychwanegol*

- Rhaid i ddarlithwyr cyswllt E229 fod ar gael i gymedroli eu fforwm grŵp tiwtor ar-lein drwy gydol y modiwl.
- Fel rhan o'u hymrwymiad i ddatblygiad personol staff, byddai disgwyl i Ddarlithwyr Cyswllt E229 gwblhau hyfforddiant penodol ar ddefnyddio amgylcheddau addysgu ar-lein cydamserol (Adobe Connect) ac anghydamserol (fforymau) Y Brifysgol Agored

- Bydd addysgu ar y modiwl hwn yn cynnwys addysgu fel rhan o grŵp o Ddarlithwyr Cyswllt mewn clwstr. *Bydd tiwtorial ar-lein cyfatebol ar gyfer pob tiwtorial wyneb yn wyneb, a fydd yn ymdrin â chynnwys tebyg i'r hyn a gyflwynir yn y tiwtorialau wyneb yn wyneb.*

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6